RHIFYN
ISSUE
42
12.11.21

Llais Llantrisant

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Diwrnod olaf Tymor yr Hydref eleni fydd 17.12.21 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor y Gwanwyn ar 05.01.22.
Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.
The last day of the Autumn Term this year is on 17.12.21 at 3:30 pm. The children return for the Spring Term on 05.01.22. Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.



HMS 2021-2022
INSET 2021-2022

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.
This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

03.09.21	**04.01.22**	**25.04.22**
+3 i'w trefnu *TBA*		

DIOLCH!
THANK YOU!

Ar ran plant Dosbarth 9 a Miss Williams, diolch yn fawr iawn i Daid EQ am y rhodd arbennig hon. Mae Taid EQ wedi creu cloc arbennig ar gyfer wal y dosbarth.
On behalf of the children in Class 9 and Miss Williams, a big thank you to EQ's Taid for this lovely gift. EQ's Taid has made this special clock for the classroom wall.





DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

19.11.21 - Diwrnod Plant Mewn Angen
Children in Need Day
10.12.21 - Cinio Nadolig + Siwmperi Nadoligaidd
Christmas Lunch and Christmas Jumpers
16.12.21 - Partïon Nadolig y Cyfnod Sylfaen (llythyr i ddilyn)
Foundation Phase Parties Day (letter to follow)
17.12.21 - Diwrnod Disgo Nadolig CA2 (llythyr i ddilyn)
Key Stage 2 Christmas Disco Day (letter to follow)
17.12.21 - Diwrnod ola'r tymor
Last day of term

CYFEIRIAD EBOST (MWY!) NEWYDD YR YSGOL
SCHOOL'S NEW(ER!) EMAIL ADDRESS

Rydym wedi derbyn cyfeiriad ebost ysgol newydd (eto) a chyfeiriadau ebost newydd ar gyfer y dosbarthiadau. Bydd yr hen gyfeiriadau ebost i gyd yn derbyn ebyst am gyfnod ond gofynnir i chi ddiweddaru eich cofnodion a'ch llyfrau cyfeiriadau os gwelwch yn dda.
We have been provided with another new school email address and new class email addresses. The old email addresses will continue to receive emails for a period but you are kindly asked to update your records and address books, please.

admin@yggglantrisant.rctcbc.cymru

Dosbarth.1@yggglantrisant.rctcbc.cymru	Dosbarth.6@yggglantrisant.rctcbc.cymru
Dosbarth.2@yggglantrisant.rctcbc.cymru	Dosbarth.7@yggglantrisant.rctcbc.cymru
Dosbarth.3@yggglantrisant.rctcbc.cymru	Dosbarth.8@yggglantrisant.rctcbc.cymru
Dosbarth.4@yggglantrisant.rctcbc.cymru	Dosbarth.9@yggglantrisant.rctcbc.cymru
Dosbarth.5@yggglantrisant.rctcbc.cymru	Dosbarth.10@yggglantrisant.rctcbc.cymru

LLONGYFARCHIADAU!
CONGRATULATIONS!

Hoffai pawb longyfarch SG wedi iddo lofnodi cytundeb i chwarae pêl-droed yn Academi pêl-droed Cardiff City yn ddiweddar. Da iawn ti, SG! Mae brawd SG, HG wedi bod yn hyfforddi yn yr Academi hefyd. Mae'r ddau frawd wedi cynrychioli Cardiff City mewn gemau yn erbyn Manchester City, Tottenham Hotspur, Aston Villa, Wolves, Southampton a Lerpwl yn ddiweddar. Dau wyneb i'w cofio ar gyfer y dyfodol!
Everyone would like to congratulate SG who has recently signed a contract to play football in Cardiff City Academy. Well done, SG! SG's younger brother, HG has also been training in the Academy. The two brothers have represented Cardiff City in games against, Manchester City, Tottenham Hotspur, Aston Villa, Wolves, Southampton and Liverpool recently. Two faces to keep an eye open for in the future!







MAINT CYMRU
SIZE OF WALES

Diolch yn fawr iawn i'n ffrindiau, Nigel a Laura o 'Maint Cymru' am ddod i'r ysgol y tymor hwn i gynnal gweithdai gyda phlant Blwyddyn 4 a 6. Testun y gweithdai oedd Fforestydd Glaw a newid yn yr hinsawdd. Bydd Laura yn parhau i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 bob pythefnos ar faterion amgylcheddol megis olew palmwydd a phwysigrwydd coed yn ein hamgylchedd.

Many thanks to our friends at 'Size of Wales', Nigel and Laura, for coming along to school this term to hold workshops with pupils in Year 4 and 6. The focus for these workshops was rainforests and climate change. Laura will continue to work with Year 6 each fortnight regarding environmental issues such as palm oil and the importance of trees in our environment.



BANCBWYD TAF ELAI
TAFF ELY FOODBANK

Ar gyfer ein Hapêl Cynhaeaf eleni, gofynom am gyfraniadau tuag at FancBwyd Taf Elai unwaith eto. Diolch i haelioni pawb, aeth Miss Thomas â llond bŵt o fwydydd i Eglwys Bethel yn ddiweddar! #Diolch

For our Harvest Appeal this year, we once again requested food donations for Taff Ely FoodBank. Thanks to everyone's generosity, Miss Thomas was able to take a full boot of food donations to Bethel Church recently! #ThankYou



Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.cymru**

PLANT MEWN ANGEN 2021
CHILDREN IN NEED 2021

Croeso i'r plant wisgo dillad anffurfiol i'r ysgol ar 19.11.21. Unwaith eto eleni, rydym wedi creu tudalen 'Just Giving' mewn partneriaeth â Plant Mewn Angen y BBC os hoffech chi gyfrannu at yr achos.

The children are welcome to wear their informal clothes to school on 19.11.21. Once again this year, we have created a 'Just Giving' page in partnership with BBC Children in Need should you wish to contribute to the cause.

https://bit.ly/3Hw5KeU

DANGOS CERDYN COCH I HILIAETH
SHOW RACISM THE RED CARD

Diolch i holl gymuned yr ysgol am nodi'r dyddiad pwysig hwn eleni i sicrhau ein bod yn ystyried pob un o'n ffrindiau yn YGGG Llantrisant ac yn trin a thrafod ein gilydd â pharch a chydraddoldeb.

Thank you to the whole school community for marking this important date recently to ensure that we all consider each and everyone one of our friends in YGGG Llantrisant and that we treat each other with respect and equality.


















Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**